COSVR556

Creu ac atgyweirio gorffeniadau plastr a rendrad ar brosiectau cadwraeth neu adfer

Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â chynhyrchu ac atgyweirio gorffeniadau plastr a rendrad ar brosiectau cadwraeth neu adfer neu strwythurau pridd, dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, yn unol â gofynion y sefydliad sy’n cyfateb i’r gofynion statudol a deddfwriaethol presennol neu’n rhagori arnynt

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes galwedigaethol sgiliau treftadaeth a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Dehongli gwybodaeth

P1 dehongli'r wybodaeth am y gwaith a'r adnoddau fel sy'n berthnasol i leoliad daearyddol a'r amodau hinsawdd i gadarnhau ei bod yn berthnasol ar gyfer y canlynol:

- lluniadau
- manylebau
- rhestrau
- datganiadau dull
- asesiadau risg
- gwybodaeth gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr
- cyfarwyddiadau llafar, ysgrifenedig neu electronig
- rheoliadau, deddfwriaeth, canllawiau swyddogol a thrwyddedau cyfredol

Arferion gwaith diogel

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol berthnasol a chanllawiau swyddogol i wneud y gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach am y canlynol:

- dulliau gweithio
- defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol yn ddiogel
- defnyddio cyfarpar mynediad neu godi yn ddiogel
- defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
- defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel
- risgiau penodol i iechyd a diogelwch galwedigaethol gan gynnwys ymwybyddiaeth o iechyd meddwl
- risgiau penodol sy'n gysylltiedig â deunyddiau peryglus neu rai sy'n cynnwys asbestos

Dewis adnoddau

P3 dewis faint o adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd gofynnol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio ar gyfer y canlynol:

- deunyddiau a chydrannau
- offer a chyfarpar

Lleihau'r risg o ddifrod

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau’r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o’i gwmpas drwy:

- gymryd camau perthnasol i ddiogelu’r mannau gwaith rhag difrod damweiniol neu anfwriadol
- gweithio gydag ymwybyddiaeth o’r amgylchedd mewn cysylltiad â galwedigaethau eraill
- cadw'r man gwaith yn lân ac yn daclus
- gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

Bodloni gofynion y contract

P5 cydymffurfio â'r wybodaeth yn y contract i gynhyrchu ac atgyweirio gorffeniadau plastr a rendrad yn effeithlon yn unol â’r gofynion drwy:

- dangos sgiliau gwaith i wneud y canlynol:
  - mesur
  - marcio allan
  - gosod arwynebau gwastad
  - sgridau syth a lefel
  - tynnu
  - rhoi
  - taenu
  - mesur
  - gorffeniad
  - lleoli onglau a chyffyrdd â gorffeniadau eraill
  - diogel
- defnyddio a chynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer, peiriannau cymysgu a chyfarpar ategol
- cynhyrchu mowld rhedeg, gan gynnwys cymryd argraffiadau (gwasgiad) o fowldin sy’n bodoli eisoes
- castio ar y safle o wasgiad i gyfateb â’r un presennol
- paratoi haenau cefndir cyn derbyn haenau ychwanegol o blastr neu rendrad, gan gynnwys:
  - lefelu pantiau
  - côt grafu
  - côt bigog
  - côt fflotiog
  - côt orffen

- creu gorffeniadau plastr mewnol a rendrad allanol yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith sy'n ymwneud â'r canlynol:
    - tynnu plastr a rendrad diffygiol
    - tynnu delltennau neu gyrs diffygiol
    - paratoi arwynebau cefndir:
    - dellt neu gyred
    - solet
    - gwaith un, dau a thri haen
    - arwynebau fertigol, ar oleddf, crwm a nenfydau
    - gosod allan a ffurfio onglau mewnol ac allanol i gyfateb i'r rhai presennol:
    - cornel solet
    - rhimyn hir pren
    - rhimyn hir o blastr
    - atgynhyrchu gorffeniadau presennol
    - adrannau wedi'u mowldio
- atgyweirio arwynebau plastr neu rendrad yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio ar gyfer pedwar o'r canlynol:
    - fertigol
    - nenfwd
    - goleddfol
    - mowld rhedeg yn y fan a'r lle
    - wedi'i fowldio gyda chyfoethogiad i'r cast
    - crwm:
    - cromen
    - baril
    - fowt

    - nenfwd hanner cylch
    - wedi'i fodelu â llaw yn y fan a'r lle
    - lloriau
- atgyweirio neu ailosod a gorffen i gyd-fynd â'r arwynebau presennol o gypswm a phlastr calch neu rendrad calch gan ddefnyddio gorffeniad trywel ar gyfer dau o'r canlynol:
    - gorffeniad fflôt
    - gorffeniad sbwng
    - cerrig nadd
    - plastr garw
    - plastr parget

Amser a neilltuwyd P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd, gan ystyried yr amodau hinsawdd, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad, y rhaglen waith ac i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cleient

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

P1 Dehongli gwybodaeth

K1 pam mae gweithdrefnau'r sefydliad wedi cael eu datblygu a sut maent yn cael eu rhoi ar waith

K2 mathau o wybodaeth, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli mewn perthynas â:

- lluniadau
- manylebau
- rhestrau
- datganiadau dull
- asesiadau risg
- gwybodaeth gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr
- gwybodaeth gytundebol
- deddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau swyddogol a thrwyddedau cyfredol, gan gynnwys adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt
- cynlluniau ac adroddiadau cadwraeth
- cyfarwyddiadau llafar, ysgrifenedig neu electronig

K3 pwysigrwydd gweithdrefnau sefydliadol o ran datrys problemau â gwybodaeth a pham mae'n bwysig eu dilyn

K4 gwybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol, gyfredol, canllawiau swyddogol a gofynion penodol i safle a sut mae'n cael ei rhoi ar waith

P2 Arferion gwaith diogel

K5 sut dylid ymateb i argyfyngau yn unol ag awdurdodiad y sefydliad a sgiliau personol o ran y canlynol:

- tanau a'r mathau o gyfarpar diffodd tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio o ran dŵr, CO2, ewyn a phowdr
- gollyngiadau ac anafiadau
- argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol
- nodi ac adrodd am sylweddau peryglus gan gynnwys deunyddiau sy'n cynnwys asbestos a charbonad plwm, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny

K6 y gweithdrefnau diogelwch sefydliadol a phenodol i safle ar gyfer offer, peiriannau a chyfarpar mewn perthynas â'r canlynol:

- safle
- gweithle

- cerbydau
- cwmni
- gweithwyr
- cleientiaid
- y cyhoedd

K7 sut mae rhoi gwybod am risgiau a pheryglon a nodwyd gan y canlynol:

- dulliau gweithio
- asesiadau risg
- asesiad personol
- gwybodaeth dechnegol gwneuthurwyr
- rheoliadau statudol
- canllawiau swyddogol
- Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

K8 y gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny

K9 pam, pryd a sut y dylid defnyddio'r cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch a nodir gan egwyddorion atal mewn perthynas â'r canlynol:

- mesurau diogelu ar y cyd
- cyfarpar diogelu personol (PPE)
- cyfarpar diogelu anadlol (RPE)
- awyru lleol sy'n gwacáu mygdarth (LEV)

K10 sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol wrth ddelio â damweiniau posibl, peryglon i iechyd a'r amgylchedd wrth weithio yn y gweithle mewn perthynas â'r canlynol:

- dan lefel y ddaear
- lleoedd cyfyng
- gweithio mewn mannau uchel
- offer, peiriannau a chyfarpar
- deunyddiau a sylweddau
- symud a storio deunyddiau drwy eu codi a'u cario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol

P3 Dewis adnoddau

K11 pam mae nodweddion, ansawdd, defnydd, cynaliadwyedd, addasrwydd, cyfyngiadau a diffygion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau yn bwysig, a sut dylid rhoi gwybod am ddiffygion

K12 pam y dylid mabwysiadu arferion gwaith a deunyddiau cynaliadwy a moesegol

K13 y gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer dewis adnoddau, pam maen nhw wedi cael eu datblygu a sut mae eu defnyddio

K14 sut mae cadarnhau bod yr adnoddau a'r deunyddiau'n cydymffurfio â'r fanyleb

K15 sut dylid defnyddio'r adnoddau a sut mae rhoi gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ynglŷn â'r canlynol:

- gwaith dellt a chyrs
- plastrau gypswm
- plastrau pridd
- rendradau pridd
- clai
- powdrau mân
- agregau
- ffeibrau naturiol a rhai wedi'u gwneud gan ddyn
- smentiau naturiol
- calchoedd:
  - anhydrolig:
  - pwti calch
  - calch cyflym
  - hydrolig
- rhimyn:
  - pren
  - dur gwrthstaen
- ychwanegion
- cyfryngau bondio
- deunyddiau i'w defnyddio ar gyfer gwasgiadau
- ffitiadau a gosodiadau
- offer llaw ac offer pŵer, peiriannau cymysgu a chyfarpar cysylltiedig
- cyfarpar digidol

K16 sut mae nodi ac adrodd ar y peryglon sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a'r dulliau gweithio a sut maent yn cael eu rheoli mewn perthynas â datganiadau dull ac asesiadau risg

K17 dulliau o gyfrifo niferoedd, hyd, arwynebedd a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r dull a'r weithdrefn ar gyfer cynhyrchu ac atgyweirio gorffeniadau plastr a rendrad ar brosiectau cadwraeth neu adfer

P4 Lleihau'r risg o ddifrod

K18 sut mae diogelu gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod a phwrpas diogelu rhag gweithgareddau cyffredinol yn y gweithle, gweithrediadau eraill a thywydd garw a sut mae lleihau difrod

K19 pa mor bwysig yw gwaredu gwastraff yn ddiogel, a sut mae gwneud hynny, yn unol â'r canlynol:

- cyfrifoldebau amgylcheddol
- gweithdrefnau'r sefydliad
- gwybodaeth gwneuthurwyr
- gwybodaeth cyflenwyr
- rheoliadau statudol
- canllawiau swyddogol

K20 pam mae'n bwysig cynnal ardal waith ddiogel, glir a thaclus

P5 Bodloni manyleb y contract

K21 sut mae'r dulliau gweithio i fodloni'r fanyleb yn cael eu cyflawni a sut mae problemau'n cael eu nodi a'u hadrodd drwy ddefnyddio gwybodaeth ar gyfer arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel, iach ac amgylcheddol sy'n ymwneud â'r canlynol:

- y gwahaniaeth rhwng gwastad a syth o ran paratoi ac atgyweirio arwynebau gyda phlastr solet ac wedi'u rendro
- ble a phryd i ddefnyddio gorffeniadau gwastad a syth o ran paratoi ac atgyweirio arwynebau plastr solet ac wedi'u rendro

- sut mae sefydlogi a pharatoi arwynebau cefndir sy'n briodol i'r gorffeniad plastr a rendrad, gan gynnwys:

    - dellt a chyrs
    - solet
    - rheoli sugnedd â dŵr
    - arwynebau wedi'u plastro a'u rendro sy'n bodoli eisoes
    - glanhau uniadau allan os yw hynny'n briodol

- sut a phryd i ddefnyddio plastrau calch a gypswm trwm ac ysgafn

- paratoi haenau cefndir cyn derbyn haenau ychwanegol o blastr neu rendrad, gan gynnwys:

    - lefelu pantiau
    - côt grafu
    - côt bigog
    - côt fflotiog
    - côt orffen

- sut mae rhoi a gorffen plastr mewnol (un, dwy a thair haen), a gwaith rendro allanol yn y dulliau canlynol:

- fertigol
- goleddfol
- crwm
- arwynebau nenfwd

- pam ei bod yn bwysig caniatáu amser ar gyfer carbonadu cychwynnol a sychu rhwng haenau ar gyfer plastr mewnol a rendrad allanol

- pam ei bod yn bwysig cael gwagle y tu ôl i'r delltennau i helpu gyda charbonadu
- pam ei bod yn bwysig bod y rendrad allanol yn cael amddiffyniad ac ôl-ofal rhag yr elfennau
- y tymheredd a'r amodau gorau posibl ar gyfer rhoi plastr a rendrad, yn fewnol ac yn allanol

- sut mae gosod allan a ffurfio onglau mewnol ac allanol i gyfateb i'r rhai presennol:

  - cornel solet
  - rhimyn hir pren
  - rhimyn hir o blastr

- sut i wneud gwaith crwm, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

  - cromen
  - baril
  - fowt
  - cilgant
  - agoriadau bwaog

- sut mae atgyweirio neu ailosod a gorffen i gyd-fynd â'r arwynebau presennol o blastr calch neu rendrad gan ddefnyddio gorffeniad trywel ar gyfer dau o'r canlynol:

  - gorffeniad fflôt
  - gorffeniad sbwng
  - cerrig nadd
  - plastr garw
  - plastr parget

- pam ei bod yn bwysig atgynhyrchu gorffeniadau presennol ar sail tebyg am debyg, gan gynnwys:

  - mowld rhedeg yn y fan a'r lle
  - wedi'i fowldio gyda chyfoethogiad i'r cast

  - crwm:

  - cromen

  - baril
  - fowt

  - nenfwd hanner cylch

    - wedi'i fodelu â llaw yn y fan a'r lle
    - lloriau

- sut mae atgynhyrchu gorffeniadau presennol ar sail tebyg am debyg, gan gynnwys:
    - mowld rhedeg yn y fan a'r lle
    - wedi'i fowldio gyda chyfoethogiad i'r cast
    - crwm:
    - cromen
    - baril
    - fowt
    - nenfwd hanner cylch
    - wedi'i fodelu â llaw yn y fan a'r lle
    - lloriau
- beth yw'r gwahanol ddulliau ar gyfer gwneud argraff ar fowldinau presennol cyn cynhyrchu mowldinau a chyfoethogiadau
- beth yw manteision ac anfanteision cymryd argraffiadau o waith plastr treftadaeth presennol wrth ddefnyddio'r canlynol:
    - creu templed
    - gwasgiad plastr
    - gwasgiad silicôn (thicsotropig)
    - clai
    - darn rhydd o blastr
    - sganio 3D
- castio ar y safle i gynnwys y canlynol:
    - dewis deunyddiau
    - atgyfnerthiadau
    - pwyntiau gosod
- sut mae nodi ble a phryd i ddefnyddio gleiniau pren neu ddur gwrthstaen
- sut i baratoi'r canlynol:
    - clai
    - plastrau pridd
    - rendradau pridd
    - deunydd bras

  - pwti calch
  - plastr
  - smentiau naturiol
  - powdrau mân
  - agregau

- pam ei bod yn bwysig diogelu deunyddiau wedi'u cymysg a heb eu cymysgu cyn eu defnyddio

- sut i ddiogelu deunyddiau wedi'u cymysgu a heb eu cymysgu cyn eu defnyddio
- sut i ddatblygu proffiliau mowldio

- sut i atgyweirio lloriau calch gan ddefnyddio'r canlynol:

  - dellt
  - calch
  - gypswm
  - onnen

- pam ei bod yn bwysig dilysu ffyrdd priodol y dylid gwneud y gwaith

- pam ei bod yn bwysig nodi arwynebeddau sensitif
- pam ei bod yn bwysig cynnal treftadaeth a chyfanrwydd archaeolegol
- pam bod angen cynnal egwyddorion ymyrraeth sylfaenol a newidiadau gwrthdroadwy
- pam fod angen cofnodi gwaith a wneir (mewn fformat ysgrifenedig a digidol)
- pam mae'n bwysig adnabod a rhoi gwybod am blanhigion ac anifeiliaid sydd mewn perygl ac wedi'u gwarchod (gwenyn morter)
- pam fod angen symud deunyddiau sydd wedi dirywio a deunyddiau amhriodol
- pam ei bod yn bwysig cynnal y strwythur presennol
- pam mae angen integreiddio cydrannau adeiladol sy'n bodoli eisoes a rhai newydd
- sut i storio ffabrigau, deunyddiau a chydrannau strwythurol y gellir eu hachub
- pam ei bod yn bwysig nodi, penderfynu a rhoi gwybod pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol, ac adrodd yn briodol ynghylch hyn
- perthnasedd asesiad o arwyddocâd

- pam ei bod yn bwysig pennu gofynion penodol ar gyfer y canlynol:

  - strwythurau o ddiddordeb arbennig
  - adeiladu traddodiadol (cyn 1919)
  - arwyddocâd hanesyddol

- sut mae nodi gofynion penodol ar gyfer y canlynol:

  - strwythurau o ddiddordeb arbennig
  - adeiladwaith traddodiadol
  - adeiladau anodd eu trin
  - arwyddocâd hanesyddol

- sut i ddefnyddio pob math o offer llaw ac offer pŵer, a chyfarpar cymysgu a chysylltiol

- sut a pham mae angen i'r gweithiwr sicrhau bod yr holl offer llaw a phŵer a chyfarpar cymysgu ac ategol yn cael eu cynnal a'u cadw
- sut mae gweithio mewn mannau uchel gan ddefnyddio cyfarpar mynediad
- sut mae gweithio gyda pheiriannau ac offer, o'u cwmpas ac yn agos iawn atynt

K22 gweithdrefnau'r sefydliad o ran ymddygiad ar y safle, a chydnabod a sicrhau tegwch, cynhwysiant a pharch o fewn yr amgylchedd gwaith, a sut i roi sylw i ymddygiad amhriodol ar y safle a rhoi gwybod amdano

K23 pwysigrwydd dulliau gweithio, cysylltiadau rhyngbersonol a chyfathrebu ac anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a pharatoi gorffeniadau plastr a rendrad ar brosiectau cadwraeth neu adfer

P6 Amser a neilltuwyd

K24 y rhaglen ar gyfer gwneud y gwaith, gan gynnwys yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd, a pham y dylid cadw at derfynau amser neu roi gwybod os ydych yn debygol o fethu cadw atynt

K25 y mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd a amcangyfrifiwyd, a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

COSVR556

Creu ac atgyweirio gorffeniadau plastr a rendrad ar brosiectau cadwraeth neu adfer

Datblygwyd gan	Construction Skills
Dyddiad cymeradwyo	30 Meh 2022
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Meh 2027
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR556
Galwedigaethau perthnasol	Plastrwyr
Cyfres/Set	Sgiliau Treftadaeth (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Clai; Strwythurau pridd; Plastrau pridd; Rendradau pridd; Deunyddiau bras; Pwti calch; Cyfryngau bondio: Calch cyflym: Calch poeth